

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

<http://senedd.tv/cy/3832>

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Chwefror
2017

Amser: 09.18 – 12.30

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Lynne Neagle AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Hefin David AC John Griffiths AC Llyr Gruffydd AC Darren Millar AC Julie Morgan AC
Tystion:	Meilyr Rowlands, Estyn Claire Morgan, Estyn Simon Brown, Cyfarwyddwr Strategol, Estyn Tim Pratt, ASCL Maureen Harris, Association of School and College Leaders (Cymru) Rob Williams, NAHT
Staff y Pwyllgor:	Jon Antoniazzi (Clerc) Sarah Bartlett (Dirprwy Clerc)



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad [o'r cyfarfod](#) (PDF 750KB) Gweld fel [HTML](#) (343KB)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. O dan Reol Sefydlog 17.24 datganodd Llyr Gruffydd AC ei fod yn Llywydd Anrhydeddus Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) ac yn Aelod o Gorff Llywodraethu. Datganodd Hefin Davies AC ei fod yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

2 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2015 – 2016

Bu'r Pwyllgor yn holi Estyn yn fanwl am ei Adroddiad Blynyddol. Cytunwyd i ddarparu'r canlynol:

Nodyn yn egluro'r data ar gyfran yr ysgolion â gweithgarwch dilynol;

Nodyn ar ysgolion bro gan gynnwys enghreifftiau o arfer da o beth sy'n gwneud ysgol fro dda.

3 Ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon – Sesiwn dystiolaeth 2

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (CCAUC) a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)).

4 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau

Papur i'w nodi 6 – Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn amlygu pryderon gydag amserlen cyhoeddi'r Canllaw Gofal Iechyd diwygiedig.

- 4.1 Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
- 4.2 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – gwybodaeth bellach yn dilyn y cyfarfod ar 12 Ionawr
- 4.3 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – gwybodaeth bellach yn dilyn y cyfarfod ar 12 Ionawr
- 4.4 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon – gwybodaeth bellach yn dilyn y cyfarfod ar 12 Ionawr
- 4.5 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu gydol Oes – Cyllid Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yn y dyfodol
- 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunwyd ar y cynnig.

- 6 Trafod y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor y llythyr. Cytunwyd i ymateb i'r ymgynghoriad.

- 7 Ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon – Ymatebion i'r Ymgynghoriad